**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 22 Tachwedd 2017 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A Pugh (Is-gadeirydd) f'un llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| D W Helliwell | P Jones | L V Walton |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Downing, C Richards a P B Smith

---

**26 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**27 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2017 fel cofnod cywir.

**28 Cyflogadwyedd - Gweithdy i archwilio a yw Rhaglen Waith Abertawe'n 'cydweddu' â'r Strategaeth Trechu Tlodi ac i ddrafftio llythyr at Aelod y Cabinet.**

Rhoddodd Rachel Moxey, Pennaeth Tlodi a'r Atal, gyflwyniad a oedd yn ystyried y cyswllt rhwng Rhaglen Gwaith Abertawe a chyflawni canlyniadau'r Strategaeth Trechu Tlodi.

Roedd holl aelodau'r pwyllgor eisoes wedi derbyn copi o'r Strategaeth Trechu Tlodi ddrafft. Amlinellodd y Pennaeth Tlodi a'i Atal yr egwyddorion, y canlyniadau allweddol, cyfraniad Gwaith Abertawe, gan gynnwys yr hyn a oedd yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Gwaith Abertawe, ei nodau a'r canlyniadau disgwyliedig.

Roedd trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol:

- Gofynnwyd am eglurder ar drefniadau llywodraethu, yn benodol y cyswllt rhwng PDChP Lleihau Tlodi a rôl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. A ddylid cael dull adrodd 2 ffordd?
- Awgrymwyd y gallai digwyddiadau i ofalwyr hefyd gael eu cynnal mewn ysgolion, nid mewn colegau'n unig;
- Gofynnwyd am wybodaeth am sawl ysgol sy'n rhan o'r cynllun 'Tîm am y Teulu';
- Ar hyn o bryd, mae oddeutu 800 o bobl yn cael eu cefnogi, serch hynny, mae oddeutu 24,000 o bobl sy'n anweithgar yn economaidd yn Abertawe. Ar hyn o bryd, rydym yn helpu oddeutu 300 o bobl i ganfod gwaith, serch hynny, cydnabuwyd bod angen mwy o waith yn y maes hwn a dylid osgoi gweithio ar wahân;
- Mae'r awdurdod wedi meithrin perthynas waith dda â'r Adran Gwaith a Phensiynau o ran cyflwyno Credyd Cynhwysol;
- Roedd Mark Hurry, Canolfan Byd Gwaith, wedi cynorthwyo wrth lunio nodyn briffio a gyflwynwyd yn flaenorol i'r pwyllgor a oedd yn amlinellu'r systemau sy'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol;
- Cyhoeddwyd newidiadau yn natganiad cyllideb y Canghellor o ran Credyd Cynhwysol, ond roeddent yn ymwneud â newidiadau i'r broses yn unig;
- Mae ystadegau darpariaeth cyflogaeth, e.e. faint o bobl rydym yn eu helpu ar hyn o bryd i ganfod swyddi/prosiectau eisoes yn cael eu cofnodi;
- Unwaith bydd y Strategaeth Tlodi wedi'i mabwysiadu, byddai ystadegau chwarterol yn cael eu cyhoeddi;
- Roedd gweithio gyda sefydliadau eraill eisoes ar waith er mwyn helpu i wneud preswylwyr yn barod ar gyfer cyflogaeth.

Bu'r pwyllgor yn trafod y flaenraglen waith ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol gwahodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach i'r cyfarfod nesaf i drafod ymhellach a chadarnhau blaenoriaethau'r cynllun gwaith.

O ran y llythyr i'w lunio i Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach, yn ogystal ag eglurder ar y pryderon a nodwyd uchod, er mwyn monitro cynnydd Blaenraglen Waith Abertawe, gofynnodd y pwyllgor am ystadegau chwarterol ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n gysylltiedig â'r cynllun, fel a nodir isod:

- ➢ Sawl person rydym yn ei helpu i ganfod gwaith ar hyn o bryd?
- ➢ Sawl person rydym yn ei gefnogi ar hyn o bryd?
- ➢ Sawl person sy'n cael cyfleoedd hyfforddi?
- ➢ Beth yw'r gost o helpu person i ganfod gwaith?

**Penderfynwyd:**

1. Nodi'r cyflwyniad;
2. Gwahodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach i'r cyfarfod nesaf i drafod ymhellach a chadarnhau blaenoriaethau'r cynllun gwaith.
3. Bydd Nick Williams, y Prif Swyddog Addysg, yn cael ei wahodd i gyfarfod yn y dyfodol i gael mwy o wybodaeth am wella canlyniadau yn y pynciau STEM/sectorau galw;

4. Bydd Mark Hurry, Canolfan Byd Gwaith, yn cael ei wahodd i gyfarfod yn y dyfodol o ran y gwaith a wneir o ran Credyd Cynhwysol;
5. Bydd y Cadeirydd ar y cyd â'r Pennaeth Tlodi a'i Atal/Cyfarwyddwr Pobl yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach yn amlinellu pryderon y pwyllgor ac yn gofyn am ystadegau chwarterol ar DPA fel a nodwyd uchod.

## 29 Cynllun Gwaith 2017-2018.

Cyflwynodd yr Is-gadeirydd gynllun gwaith diwygiedig ar gyfer 2017-2018.

Nodwyd gan fod gwrthdaro â PDChP Diogelu ar 20 Rhagfyr 2017, efallai bydd rhaid i eitemau'r agenda gael eu haildrefnu ar gyfer dyddiad arall.

Nododd y pwyllgor y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyngor ar 23 Tachwedd 2017 yn diwygio'r cylch gorchwyl ar gyfer y 5 Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisïau. O ganlyniad i nifer yr eitemau yn y cynllun gwaith presennol, cytunodd y pwyllgor i barhau i gwrdd yn fisol.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r cynllun gwaith a ddiwygiwyd yn cael ei nodi.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.43 pm

**Cadeirydd**